# SL(5)604 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ('Rheoliadau 2019').

Oherwydd pandemig y coronafirws efallai y bydd myfyriwr newydd sy'n ymgymryd â chwrs Meistr ôl-raddedig dysgu o bell yng Nghymru yn methu â bod yn bresennol yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf, yn unol â'r gofyniad yn Rheoliadau 2019, heb fod unrhyw fai arno ef. Mae Rheoliadau 2019 wedi'u diwygio i alluogi myfyrwyr newydd i gael cymorth ar gyfer eu cwrs dysgu o bell os yw rhesymau sy'n gysylltiedig â phandemig y coronafeirws yn eu hatal rhag bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Mae hyn yn gymwys mewn perthynas â chyrsiau y mae blwyddyn gyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2020 neu ar ôl hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Awst 2020.

> *"Bydd y Rheoliadau fel y'u gwnaed yn dod i rym cyn i 21 diwrnod fynd heibio. Mae hyn oherwydd ei bod yn hwyr yn y flwyddyn. Mae angen i'r Rheoliadau fod mewn grym erbyn 1 Medi (diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd) i alluogi myfyrwyr sy'n dechrau ar eu cwrs ar y dyddiad hwnnw i barhau i fod yn gymwys i gael cymorth, gan na ellir gwneud*

*newidiadau'n ôl-weithredol. Mae hyn yn sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwyr dan anfantais oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth."*

Er ein bod yn cydnabod y bu'n rhaid rhoi nifer o fesurau ar waith ar frys yn ystod Pandemig y Coronafeirws, nid yw'n glir i ni pam y bu'n rhaid i'r Rheoliadau hyn yn benodol ddod i rym ar gymaint o frys fel eu bod yn torri'r rheol 21 diwrnod er bod Gweinidogion Cymru wedi bod â'r pŵer i wneud y Rheoliadau hyn mewn da bryd.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb Llywodraeth Cymru gan fod yr esboniad am dorri'r rheol 21 diwrnod eisoes wedi'i ddarparu yn y Memorandwm Esboniadol a'r llythyr a anfonwyd at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor fel y nodwyd uchod.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Medi 2020**